Owen Evans
Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol / Deputy Permanent Secretary

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
d/o committeebusiness@wales.gsi.gov.uk

6 Rhagfyr 2016

Annwyl Gadeirydd

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *drefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm*

Gofynnodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Lywodraeth Cymru roi ei sylwadau ar yr adroddiad ar sut mae awdurdodau lleol yn codi tâl am wasanaethau ac yn cynhyrchu incwm fel rhan o'u trefniadau rheoli ariannol, a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 10 Tachwedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu asesiad yr Archwilydd Cyffredinol o sut mae awdurdodau lleol yn defnyddio eu pwerau i godi tâl am wasanaethau. Mae'r polisïau a'r dulliau gweithredu y mae awdurdodau yn eu defnyddio i godi tâl yn rhan hanfodol o'u hymdrechion i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt, ac mae'r adroddiad yn dangos sut mae lefel yr incwm a gynhyrchir yn amrywio o un awdurdod i'r llall. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos nad yw awdurdodau yng Nghymru yn codi cymaint o incwm â'r awdurdodau yn Lloegr a'r Alban.

Yn y pen draw, cyfrifoldeb pob awdurdod unigol yw gwneud ei benderfyniadau ei hun ynghylch codi tâl, ond er hynny mae'r adroddiad yn dangos yn glir nad yw awdurdodau yng Nghymru yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael i gynhyrchu incwm. Dylai awdurdodau lleol fynd ati i ddatblygu eu strategaethau a'u polisïau mewn modd sy'n eu galluogi i fanteisio mwy ar gyfleoedd i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm drwy ddulliau eraill. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod strategaethau'n newid, ond bod hynny'n digwydd yn rhy araf, ac y byddai'n bosibl i'r awdurdodau wneud mwy i rannu gwybodaeth a phrofiad.

Fodd bynnag, dim ond rhan o'r ateb i'r heriau ariannol y mae awdurdodau yn eu hwynebu yw adolygu'r ffioedd a'r taliadau a godir. Mae'n bwysig bod awdurdodau'n ystyried y dull gweithredu y maent yn ei ddefnyddio i godi ffioedd a thaliadau fel rhan o'u strategaethau ariannol ehangach, gan gydnabod bod pob awdurdod yn gyfrifol i'w etholwyr wrth wneud ei benderfyniadau. Rhaid iddynt gynllunio ar gyfer cynnal a gwella gwasanaethau hanfodol, a rheoli'r effaith ariannol ar eu cymunedau ar yr un pryd. Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

penderfyniadau i gynyddu neu gyflwyno taliadau, a gallu cymunedau, busnesau ac aelwydydd i dalu mwy am wasanaethau a'r perygl y gallai codi tâl ei wneud yn anodd i'r rheini sy'n dibynnu fwyaf ar wasanaethau gael mynediad atynt.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at wendidau yn y systemau cadw cyfrifon y mae eu hangen fel sail i broses benderfynu effeithiol. Rydym wedi pwysleisio pa mor hanfodol yw gwybodaeth ariannol gadarn a thrylwyr i swyddogaeth graffu aelodau etholedig lleol wrth iddynt ystyried cyflwyno neu gynyddu'r tâl a godir yn y cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Mae'n destun pryder i Lywodraeth Cymru bod yr adroddiad yn awgrymu bod rhai o aelodau cabinet y cynghorau "yn amharod i ymdrin â materion a allai fod yn ddadleuol, ac na fyddent yn cymeradwyo cynyddu neu gyflwyno taliadau, hyd yn oed pan geir tystiolaeth rymus dros gynyddu neu gyflwyno'r taliadau hynny". Mae'n bwysig bod yr awdurdodau yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae'r adroddiad yn sôn am y pŵer cymhwysedd cyffredinol sydd ar gael i awdurdodau yn Lloegr drwy Ddeddf Lleoliaeth 2011 ond nad yw ar gael i awdurdodau yng Nghymru hyd yn hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y gallai hynny beri i awdurdodau fod yn llai mentrus, ond rydym yn cytuno'n gryf â'r adroddiad na ddylai hynny atal awdurdodau rhag ymchwilio i ddulliau gweithredu mwy arloesol ar gyfer cynhyrchu incwm a chynnal gweithgarwch masnachol drwy'r pwerau sy'n bodoli eisoes. Mae gan awdurdodau yng Nghymru bwerau eang eisoes sy'n eu galluogi i wella neu hyrwyddo llesiant eu hardaloedd.

Mae'r adroddiad yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru "ystyried y ffordd orau i gefnogi ac annog awdurdodau lleol i weithredu mewn modd mwy masnachol wrth gynhyrchu incwm".

Fel y soniwyd eisoes, yn y pen draw, cyfrifoldeb pob awdurdod unigol yw gwneud ei benderfyniadau ei hun ynglŷn â chodi tâl a chynhyrchu incwm. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu amrywiaeth o gymorth ariannol ac ymarferol i annog dulliau gweithredu arloesol. Byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol drwy ein trefniadau partneriaeth er mwyn ymchwilio i ddulliau gweithredu blaengar o gynhyrchu incwm drwy ddefnyddio'r pwerau sy'n bodoli eisoes, ac annog awdurdodau i ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar reoli risgiau ar gyfer codi tâl a chynhyrchu incwm. Roedd Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016, yn cynnwys cynnig ar gyfer pŵer cymhwysedd cyffredinol a fyddai ar gael i awdurdodau lleol. Ni fwriwyd ymlaen â'r Bil hwn, ond mae Llywodraeth Cymru yn dal yn awyddus i wneud darpariaeth ar gyfer pŵer o'r fath ar y cyfle deddfwriaethol cyntaf, a bydd hynny'n ystyriaeth allweddol wrth fwrw ymlaen â'r gwaith o ddiwygio llywodraeth leol.

Mae'r adroddiad yn awgrymu nad yw taliadau a bennir gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU bob amser yn ddigon i gyfateb i gost y gwasanaeth a ddarperir. Mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn "adolygu cyfundrefnau ffioedd a bennir yn genedlaethol er mwyn sicrhau bod y lefelau a bennir yn adlewyrchu'n gywir y gost o ddarparu gwasanaethau, neu esbonio'r rhesymau pam bod y lefelau hynny'n wahanol". Lle mae taliadau'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ac yn destun canllawiau, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bwysig eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod taliadau statudol yn parhau'n gydnaws â'r amgylchedd y mae cynghorau'n gweithredu ynddo. Mae hyn i gyd yn seiliedig ar egwyddorion cyffredin, sef y dylai'r taliadau a godir fod yn rhesymol; wrth eu pennu, dylid ystyried gallu defnyddiwr y gwasanaeth i'w talu; ac ni ddylent fod yn uwch na'r gost o ddarparu'r gwasanaeth. Mae angen inni hefyd sicrhau bod y system yn parhau i fod yn deg ar gyfer darparwyr masnachol sy'n gweithredu yn yr un maes ac o fewn yr un ardal.

Mae’r egwyddorion hyn yn adlewyrchu’r cyfrifoldeb sydd ar awdurdodau lleol i gydbwyso’r angen i gynnal a gwella gwasanaethau hanfodol a chynorthwyo eu cymunedau ehangach â’r angen i reoli’r goblygiadau ariannol i drethdalwyr lleol a defnyddwyr gwasanaethau.

Yn gywir

Owen Evans

[wedi ei anfon drwy e-bost]